



Gwella

bioamrywiaeth

Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o fywyd sydd ar y ddaear. Nodi a deall y perthnasoedd sy'n bodoli rhwng y mathau gwahanol o fywyd yw un o'r heriau mwyaf ym maes y gwyddorau.

Mae ffermwyr yn rheoli 70% o'r tir yn y DU. Mae gwyddonwyr yn edrych ar ffyrdd newydd a chyffrous i helpu ffermwyr i wella'r fioamrywiaeth ar eu ffermydd.

Bioamrywiaeth = pob planhigyn ac anifail, gan gynnwys bywyd meicrosgopig fel bacteria a ffwng.



Mae patrymau tywydd newidiol yn effeithio ar blanhigion ac anifeiliaid. Mae gwyddonwyr wrthi'n archwilio'r byggythiadau a'r cyfleoedd i fioamrywiaeth a fydd yn ein paratoi ni ar gyfer y newidiadau cyn iddynt ddigwydd.



Mae deall y byggythiadau i rywogaethau penodol yn hynod bwysig. Mae gwyddonwyr yn y DU yn cydweithio â thimau rhyngwladol i archwilio afiechydon newydd a sut i'w rheoli.



Mae peillwyr yn hollbwysig o ran cynhyrchu bwyd. Mae ymchwilwyr wrthi'n datblygu darlun byd-eang o werth peillwyr ac yn darparu tystiolaeth hollbwysig ar sut i'w diogelu nhw yn erbyn plâu, afiechydon a newidiadau amgylcheddol.

